Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

216(v3)

1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Addysg

Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ymateb i faterion gweinyddol parhaus ym Mhrifysgol Abertawe, gan gynnwys y newyddion diweddar bod y Brifysgol saith mis yn hwyr yn cyhoeddi ei hadroddiad ariannol?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Caiff y cwestiwn hwn ei ateb gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Allied Bakeries yng ngoleuni cyhoeddiad y cwmni y bydd yn atal y gwaith cynhyrchu yn ei safle yn y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd, gan roi 180 o swyddi mewn perygl?

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

(30 munud)

NDM7057 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno y dylai Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Mai 2019, gael eu dirymu.

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Dysgu Hanes Cymru

(60 munud)

NDM7068 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes Cymru yn cael ei ddysgu i bob disgybl ysgol yng Nghymru yn ddiwahan.

Cyd-gyflwynwyr
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

7 Dadl ar Ddeiseb P-05-869: Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

(60 munud)

NDM7076 Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi' a gasglodd 6,148 o lofnodion.

P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

8 Dadl Plaid Brexit - Gadael yr Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

NDM7071 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Yn gresynu na wnaeth y DU adael yr UE ar 29 Mawrth 2019, er gwaethaf sawl addewid gan Lywodraeth y DU i wneud hynny, a bod 498 o ASau wedi pleidleisio i gychwyn proses Erthygl 50 i adael erbyn y dyddiad hwnnw.

3. Yn gwrthod unrhyw estyniad i aelodaeth y DU o'r UE ar ôl 31 Hydref 2019.

4. Yn nodi y gallai gadael heb fargen leihau costau bwyd, dillad ac esgidiau yn sylweddol, ac y bydd yn arbed £39 biliwn i drethdalwyr y DU.

5. Yn penderfynu y dylai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ar 31 Hydref 2019 oni bai bod yr UE, o leiaf:

a) yn cynnig cytundeb masnach rydd cynhwysfawr i'r DU; a

b) yn derbyn trefniadau amgen yn lle protocol Gogledd Iwerddon.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016.

2. Yn gresynu nad yw'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd eto.

3. Yn credu y dylid rhoi canlyniad y refferendwm ar waith.

9 Cyfnod pleidleisio

10 Dadl Fer

(30 munud)

NDM7069 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Tlodi yng Nghymru: Beth sy'n ei achosi a beth y gellir ei wneud i'w liniaru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019